

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL TROSEDD A LLYSOEDD

#### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Trosedd a Llysoedd sy'n diwygio adran 33(B) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymwneud â maint y digollediad y caiff llysoedd ynadon ei orchymyn mewn cysylltiad â cholled neu ddifrod a geir mewn perthynas â chostau glanhau gwastraff a ollyngir, a drinnir neu a waredir yn anghyfreithlon, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi ei osod gerbron gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron o dan RhS 29.2. Mae RhS 29 yn pennu bod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru, i bwrpas sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.
3. Cafodd y Bil Trosedd a Llysoedd ei gyflwyno gerbron Senedd y DU ar 10 Mai 2012. Gellir gweld y Bil yn y fan hon:

<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/crimeandcourts/documents.html>

#### Crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi

4. Bydd darpariaethau yn y Bil Trosedd a Llysoedd yn gymorth i warchod y cyhoedd drwy wella'r ymateb cenedlaethol i droseddau difrifol, trefnedig a chymhleth a thrwy gryfhau diogelwch ffiniau. Yn ychwanegol at hynny, bydd y Bil yn darparu trefn llysoedd a thribiwnlysoedd fwy agored ac effeithiol, tra hefyd yn diwygio'r broses penodiadau barnwrol.

Mae darpariaethau allweddol y Bil fel a ganlyn:

Bydd Rhan 1 yn sefydlu'r Asiantaeth Droseddau Genedlaethol (NCA) er mwyn atal ac ymchwilio i droseddau difrifol, trefnedig a chymhleth, cynyddu diogelwch ffiniau, a mynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio rhywiol ar blant ac â seiberdroseddu. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyfansoddiad a llywodraethiant yr NCA; mae'n rhestru ei swyddogaethau a'i phwerau, gan gynnwys pwerau swyddogion yr NCA a darpariaeth i'r NCA ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill rannu gwybodaeth a chydweithredu. Mae'r Bil yn diddymu'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona.

Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ar gyfer gwella effeithlonrwydd a thryloywder llysoedd a thribiwnlysoedd a chynyddu amrywiaeth farnwrol.

Mae Rhan 3 o'r Bil yn cyflwyno nifer o ddiwygiadau er mwyn creu trefn apelïadau mewnfudo fwy effeithiol a chymesur, tra'n gwella diogelwch ar y ffyrdd.

### **Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad iddynt**

5. Mae Adran 130 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi i lys ynadon y pŵer i wneud gorchmynion iawndal yn erbyn troseddwr a gollfarnwyd; mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 131 o'r Ddeddf honno, tra bod adran 131(1) o Ddeddf 2000 yn darparu ar hyn o bryd fod yn rhaid i'r iawndal sydd i'w dalu o dan orchymyn o'r fath mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd y mae'r llys wedi dyfarnu troseddwr yn euog ohoni beidio â bod yn fwy na £5,000.
6. Mae Llywodraeth y DU, drwy'r Bil Trosedd a Llysoedd, yn bwriadu diwygio adran 131 o Ddeddf 2000 fel na fydd y terfyn o £5,000 ond yn gymwys i orchmynion iawndal sydd wedi eu gwneud yn erbyn troseddwr o dan 18 oed.
7. Oherwydd bod adran 33(B) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("DDA 1990") yn cyfeirio at adran 131 o Ddeddf 2000, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud diwygiad canlyniadol i adran 33(B)(5), a dyna'r ddarpariaeth berthnasol y ceisir cydsyniad y Cynulliad iddi.
8. Mae'r gwelliant i adran 33(B)(5) a osodwyd gerbron gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dylid mewnosod y geiriau "in the case of a young offender" ar ôl y geiriau "limit on the amount payable". Er bod y gwelliant yn ganlyniadol i'r gwelliant i adran 131, effaith y gwelliant yw newid y drefn gosbi mewn perthynas â throseddau amgylcheddol o dan adran 33 o'r Ddeddf honno.
9. Mae effaith y gwelliannau hyn fel a ganlyn: pan ddyfernir oedolyn yn euog o drosedd, caiff y llys wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol ar y person i dalu iawndal am unrhyw anaf personol, colled neu ddifrod sy'n deillio o'r drosedd honno. Mewn perthynas â gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon o dan adran 33B(2) o DDA 1990, bydd hyn yn cynnwys

costau symud gwastraff ymaith neu gymryd camau i ddileu neu leihau effeithiau'r gwastraff. Felly, yng nghyd-destun adran 33(B), mae'r iawndal sy'n daladwy'n cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r costau yr eir iddynt wrth lanhau, ac er na osodir cap ar y swm sy'n daladwy, ni ddylai fod yn fwy na chostau'r glanhau. Pan ddyfernir person o dan 18 oed yn euog o drosedd nas diffinnir fel 'tramgwydd perthnasol', cyfyngir yr iawndal i swm y costau yr aethpwyd iddynt, neu y disgwylir mynd iddynt, wrth lanhau'r gwastraff. Pan ddyfernir person o dan 18 oed yn euog o dramgwydd perthnasol, mae'r iawndal y gellir ei orchymyn yn dal i fod yn gyfyngedig i £5,000.

10. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7 ac 8 yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel y cafodd ei draethu ym mharagraff 6 (Diogelu'r Amgylchedd) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2000.

### **Manteision Defnyddio'r Bil hwn**

11. Mae'r cynigion yn ategu'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Bydd diddymu'r cap ar yr iawndal y caiff ynadon ei orchymyn yn cynorthwyo awdurdodau rheoli gwastraff i adennill costau glanhau gwastraff sydd wedi ei ollwng yn anghyfreithlon. Bydd hyn yn gymorth i atal llygredd ac unrhyw effaith hirdymor ar yr amgylchedd. Bydd caniatáu i'r newidiadau gael eu gwneud drwy'r Bil yn gymorth i sicrhau y gweithredir dull cyson gan y llysoedd ledled Cymru a Lloegr. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ystyried a chymeradwyo'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur ar gyfer galluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys o ran Cymru.

### **Goblygiadau Ariannol**

12. Nid ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os ceir unrhyw weithredu dilynol o ddarpariaethau perthnasol y Bil Trosedd a Llysoedd.

**John Griffiths**  
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**  
**Tachwedd 2012**